OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 3158

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Newid Trefniadau Gweithrediaeth a Threfniadau Amgen) (Cymru) 2004

**Gwybodaeth sydd i'w hanfon i'r Cynulliad**

**6.**—(1) Os yw cynigion yn cael eu llunio o dan reoliad 2(1)(a), (2) neu (4), rhaid i'r awdurdod lleol anfon i'r Cynulliad —

(a) copi o'r cynigion; a

(b) datganiad sy'n disgrifio—

(i) y camau a gymerodd yr awdurdod i ymgynghori â'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod, ac â phersonau eraill â buddiant ynddi;

(ii) canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw ac i ba raddau y mae'r canlyniad hwnnw wedi'i adlewyrchu yn y cynigion; a

(iii) y rhesymau pam y mae'r awdurdod yn credu y byddai ei gynigion, os caent eu gweithredu, yn debyg o sicrhau y byddai penderfyniadau'r awdurdod yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, dryloyw ac atebol.

(2) Os yw'n ofynnol i awdurdod lleol gynnal refferendwm yn rhinwedd rheoliad 5, rhaid iddo anfon i'r Cynulliad hefyd, ynghyd â'r dogfennau y cyfeiriwyd atynt ym mharagraff (1), gopi o'r cynigion amlinellol wrth gefn, a luniwyd o dan reoliad 5(2).